

**Crynodeb o argymhellion allweddol adroddiad Kelly**

- 1 Nid oedd adroddiad Kelly yn archwilio lefel y pensiynau na lefel y cyflogau. Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB) ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o bensiynau Aelodau, ac mae disgwyl iddo gyflwyno adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn.**
- 2 Caiff ad-daliadau am log morgais ar ail gartrefi eu dileu ar unwaith i Aelodau newydd a'u dileu'n raddol yn ystod cyfnod y Senedd newydd (neu bum mlynedd) i Aelodau presennol. Bwriedir i Gomisiwn y Cynulliad gymryd agwedd mwy pragmatig at y trefniadau trosiannol cyfatebol yng Nghymru.**
- 3 Dylid ildio unrhyw enillion cyfalaf a wnaed yn ystod y cyfnod pontio ac sydd i'w priodoli i gymorth o gronfeydd cyhoeddus, i'r Senedd. Bu'r panel adolygu yn ystyried y dewis hwn ond gwrthodwyd ef ar y cyngor y byddai gofyniad o'r fath yn destun her gyfreithiol (gyda chanlyniad ansicr) ac y byddai disgwyliad rhesymol i'r Comisiwn ad-dalu Aelodau am unrhyw golled cyfalaf wrth werthu eu hail gartrefi.**
- 4 Dylai fod gan Aelodau Seneddol sy'n rhannu llety hawl rhyngddynt i hawlio hyd at derfyn o un a thraean gwaith yr uchafswm ar gyfer person sengl. Mae'r lwfans hwn yn fwy hael na'r hyn a gynigiwyd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, lle cymerodd y panel adolygu'r farn y gallai dau fyw yr un mor rhad ag un yn o ran y costau a ad-dalwyd am lety.**
- 5 Ni fydd bellach modd i Aelodau Seneddol newid dynodiad eu hail gartrefi (y cyfeirir ato yn Saesneg fel 'flipping') er mwyn hawlio mwy o dreuliau. Ni chaniatawyd hyn erioed yn y Cynulliad.**
- 6 Ni fydd bellach modd i Aelodau Seneddol ddefnyddio'r lwfans staffio i gyflogi aelodau o'u teulu. Bydd trefniadau pontio yn caniatáu i aelodau o'r teulu sydd eisoes yn cael eu cyflogi, barhau yn eu swyddi am un cyfnod Seneddol arall. Roedd y panel adolygu yn dymuno gwahardd Aelodau'r Cynulliad rhag cyflogi aelodau o'u teulu ond derbyniodd gyngor cyfreithiol y byddai'n anodd amddiffyn gwaharddiad o'r fath pe bai'n cael ei**

herio yn y llysoedd. Gwnaeth y panel adolygu argymhelliad y dylai Aelodau'r Cynulliad fabwysiadu gweithdrefnau recriwtio teg ac agored wrth gyflogi staff cymorth. Nid yw hyn yn atal aelodau o'r teulu rhag gwneud cais am swyddi o'r fath.

- 7 Mae'r argymhellion sy'n ymwneud â theithio yn debyg iawn i'r rheini yn adroddiad y panel adolygu, ac eithrio'r ffaith na all Aelodau Seneddol bellach adennill costau cymudo. Bydd hyn yn parhau i gael ei ganiatáu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae'r trefniadau cyfredol i aelodau o'r teulu deithio yn parhau heb eu newid, ond mae'r trefniadau hyn yn fwy hael i Aelodau Seneddol nag i Aelodau'r Cynulliad (30 siwrnai sengl i bartneriaid a phlant yn San Steffan o gymharu hynny â 12 siwrnai sengl yng Nghymru).
- 8 O ran y grant adsefydlu, mae cynigion Kelly yn fwy hael na'r rheini a argymhellwyd gan y panel adolygu: hyd at naw mis o gyflog i Aelodau Seneddol ond dim ond hyd at chwe mis o gyflog i Aelodau'r Cynulliad. Bydd Aelodau Cynulliad presennol yn parhau i ddod o dan drefniadau cyfredol ond gallant ddewis symud i'r system newydd. Yn San Steffan, bydd pob Aelod yn dod o dan y system newydd. Hefyd, yn San Steffan gellir atal y grant adsefydlu fel cosb i Aelod sy'n cael ei ddal yn euog o dorri'r Cod Ymddygiad.
- 9 Bydd y rheolydd annibynnol yn San Steffan yn parhau i gyhoeddi, bob chwarter o leiaf, bob hawliad unigol am ad-daliad a wnaed gan Aelodau, gyda derbyniadau neu ddogfennau tystiolaeth. Yn wahanol i'r Cynulliad, ni fydd y wybodaeth a gyhoeddir yn San Steffan yn cael ei chyfyngu i hawliadau sydd wedi eu had-dalu mewn gwirionedd.
- 10 Nid oedd adroddiad Kelly yn mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu a gwella sgiliau Aelodau Seneddol. Nid oedd chwaith yn mynd i'r afael â'r mater o allu Aelodau i wneud gwaith pwyllgor yn effeithiol. Rhoddodd y panel adolygu flaenoriaeth uchel i'r ddau fater hyn.